# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Oak House**

**Cartref Preswyl Oak House**
**43-47**
**Heol Romilly**
**Caerdydd**
**CF5 1FJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Oak House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Oak House Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael ac yn siarad yn gadarnhaol am y staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r ddogfennaeth gofal yn drylwyr ac yn gadarn, ac wedi'i hategu gan asesiadau risg lle bo angen. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod gofal bob amser yn cael ei ddarparu yn unol â'r cynlluniau gofal personol. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl ac maent yn cael dewis da o fwyd a diod. Mae'r staff gofal yn rhoi gofal mewn ffordd garedig ac amyneddgar, ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r bobl.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i hyfforddiant a sesiynau goruchwylio'r staff gofal, ac mae'r gwiriadau cyn cyflogi bellach yn cael eu cwblhau'n gywir. Mae'r staff gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn dweud wrthym fod y morâl yn dda iawn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol ac yn cwblhau gwaith i fonitro'r trefniadau sicrhau ansawdd yn rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae cwynion a gyflwynir i'r gwasanaeth yn cael eu cymryd o ddifrif.

Caiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud pan fo angen a chaiff Arolygiaeth Gofal Cymru ei hysbysu am ddigwyddiadau. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas sy'n ddiogel, yn gynnes, ac yn lân. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain sy'n cynnig cyfle iddynt gael lle personol i'w hunain, a phreifatrwydd pan fo angen.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff gofal wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl maent yn rhoi cymorth iddynt, ac yn dangos caredigrwydd ac amynedd tuag atynt. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Oak House ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o asesu ac adolygu eu hanghenion lle y bo'n bosibl, a chaiff eu dewisiadau personol eu hychwanegu at y cynlluniau personol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ei ymweliadau ac yn gofyn barn y bobl fel rhan o'r gwaith i fonitro'r trefniadau sicrhau ansawdd. Caiff cwynion a gyflwynir i'r gwasanaeth eu cymryd o ddifrif. Caiff y bobl eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle y bo'n bosibl, a'u cefnogi i dreulio amser yn gwneud pethau o'u dewis. Mae'r staff gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn rhan o dîm cefnogol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas sy'n diwallu eu hanghenion, ac mae ganddynt ystafell wely unigol yr un sy'n gynnes, yn gartrefol ac yn bersonol. Mae'r staff gofal yn parchu gofod personol y bobl.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n eu gwneud nhw'n hapus, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu. Mae gan y bobl ddewis o weithgareddau cymdeithasol y gallant gymryd rhan ynddynt yn y cartref ac mae aelodau o'r staff gofal ar gael i fynd â nhw i'r gymuned os byddant am wneud hynny. Mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion y bobl yn glir; fodd bynnag, nid yw'r gofal a'r cymorth bob amser yn cael ei ddarparu'n unol â'r cynlluniau hyn. Mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau, ond nodwyd un enghraifft gennym lle roedd y staff gofal yn aros am hyfforddiant penodol gofynnol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae gan Oak House bolisi diogelu cadarn ar waith ac mae pob aelod o'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin. Cyflwynir ceisiadau i'r tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) lle y bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod achosion o leoli pobl yn y gwasanaeth yn gyfreithlon lle nad oes gan y bobl y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a llety. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a lle ceir cyn lleied o beryglon â phosibl. Caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau'n gywir, a chaiff diogelwch tân ei gymryd o ddifrif. Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel gan fod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn iddynt ddechrau gweithio. Mae system ar waith i sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, a bod y staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Gofal a Chymorth

Nid yw'r bobl bob amser yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Mae'r cynlluniau gofal personol yn drylwyr, yn gadarn ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion y bobl a'r ffordd orau o'u diwallu. Fe'u hategir gan asesiadau risg lle bo angen. Caiff y cynlluniau personol ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r dogfennau hyn yn bwysig am eu bod yn rhoi arweiniad i'r staff gofal o ran sut i ofalu am y bobl yn gywir. Nid yw'r gofal a'r cymorth bob amser yn cael ei ddarparu'n unol â'r cynlluniau hyn. Gwnaethom drafod hyn â'r darparwr, a roddodd sicrwydd i ni y byddai'n ymdrin â'r mater hwn wrth symud ymlaen. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at un enghraifft lle nad oedd pob aelod o'r staff gofal yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddiwallu angen mwy cymhleth un o'r preswylwyr. Cymerodd y darparwr gamau gweithredu interim ar unwaith. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr fod wedi gweithredu erbyn yr arolygiad nesaf. Mae prosesau meddyginiaeth y cartref yn ddiogel ac yn gadarn. Caiff meddyginiaethau eu storio a'u rhoi'n ddiogel yn unol â'r canllawiau rhagnodi. Mae Oak House yn defnyddio system E-MAR electronig i gofnodi pan gaiff meddyginiaethau eu rhoi. Cawsom wybod fod y system hon yn fuddiol a'i bod yn lleihau'r risg o wallau wrth roi meddyginiaethau.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth annibynnol dros eu bywydau. Mae ganddynt arferion dyddiol personol ac maent yn dewis pryd i godi yn y bore, pryd i fynd i'r gwely yn y nos a sut i dreulio eu hamser yn y cyfamser. Mae'r cynlluniau gofal personol yn nodi hoff bethau a chas bethau'r bobl a'u dewisiadau o ran sut y dylid darparu eu gofal. Mae Oak House yn cyflogi staff gweithgareddau penodedig sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau, ac yn annog ac yn cefnogi'r bobl i gymryd rhan ynddynt. Mae lefelau staffio o ran staff gofal yn y gwasanaeth yn dda, ac maent yn sicrhau na fydd y bobl yn aros i gael cymorth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yn y gwasanaeth, a dywedodd un person wrthym, "*there is something going on nearly all of the time".* Gwelsom fod dewis o brydau bwyd, diodydd a byrbrydau ar gael i'r bobl, a dywedodd un person wrthym "*The food is lovely and if you want something else, they never leave you short".* Mae'r gwasanaeth yn annog ymwelwyr, a chaiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â'u ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas. Mae Oak House wedi'i leoli mewn ardal breswyl yng Nghaerdydd ag amwynderau lleol a chysylltiadau trafnidiaeth da. Mae'r cartref wedi'i leoli dros dri llawr, ac mae lifft teithwyr ar gael i'r bobl gyrraedd y gwahanol loriau yn ddiogel. Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar, ond byddai'n fuddiol gwneud rhywfaint o waith addurno cosmetig a gosod carpedi newydd mewn mannau. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei lanhau, ac nid oedd unrhyw arogleuon drwg ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae digon o fannau cymunedol sy'n galluogi'r bobl i dreulio amser gyda'i gilydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae ardal awyr agored ddiogel â dodrefn gardd ynddi i'r bobl ei defnyddio fel y dymunant. Mae ardaloedd ar gael yn y cartref i'r bobl dreulio amser preifat yng nghwmni ymwelwyr. Mae gan y cartref nifer digonol o ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Mae pob un ohonynt yn lân ac mewn cyflwr da, ond byddai'n fuddiol uwchraddio rhai ohonynt. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain, sy'n gynnes, yn lân ac wedi'u haddurno'n hyfryd. Mae'r bobl yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd i'w gwneud mor gartrefol a chyfforddus â phosibl.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Adeg cyrraedd Oak House, roedd y brif fynedfa wedi'i chloi a gofynnwyd i ni ddangos manylion adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr cyn cael mynediad. Gwnaethom gerdded o amgylch yr adeilad gan nodi nad oedd unrhyw rwystrau yn yr amgylchedd, a bod unrhyw beryglon wedi cael eu lleihau cymaint â phosibl. Mae cemegion niweidiol yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo, ac mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar y ffenestri. Caiff cyfarpar y gellir ei wasanaethu, fel teclynnau codi a'r lifft, eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff gwiriadau diogelwch nwy a thrydan eu cynnal yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Mae asesiad risg tân ar waith a chaiff y larymau tân eu profi bob wythnos. Mae Cynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) ar waith ar gyfer pob preswylydd, sy'n rhoi arweiniad i'r staff gofal ar sut y dylid symud y bobl allan o'r adeilad mewn argyfwng. Mae cyfarpar priodol ar gael pe byddai angen gwagio'r adeilad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd ar waith o fudd i'r bobl. Mae gan Oak House Unigolyn Cyfrifol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae dirprwy reolwr hefyd sy'n goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Ar hyn o bryd, nid oes rheolwr yn y gwasanaeth, ond dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi dod o hyd i berson addas ac y bydd yn dechrau yn ei swydd yn fuan. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rhedeg y gwasanaeth ac er mwyn rhoi arweiniad i'r staff gofal o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol ac yn llunio adroddiad i ategu'r ymweliadau. Gwneir gwaith rheolaidd i fonitro'r trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys gofyn barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff gofal sy'n gweithio yno. Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd yn dangos bod y darparwr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, a gwneud gwelliannau lle bo angen. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud i dîm diogelu'r Awdurdod Lleol pan fo angen, ac wedyn cânt eu storio'n ganolog lle gellir eu monitro. Rhoddir gwybodaeth fanwl i'r bobl am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael, sy'n cynnwys manylion am sut i wneud cwyn os na fyddant yn hapus. Caiff cwynion a gyflwynir i'r gwasanaeth eu cymryd o ddifrif, ac ymdrinnir â nhw'n briodol.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau mewn perthynas â hyfforddi, goruchwylio a recriwtio staff gofal. Mae pob aelod o'r staff gofal bellach yn cael sesiynau goruchwylio yn unol â'r gofynion rheoliadol, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda wrth weithio yn y gwasanaeth. Mae'r sesiynau goruchwylio yn bwysig gan eu bod yn cynnig cyfle i'r staff drafod unrhyw faterion neu anghenion o ran ymarfer fel rhan o broses ffurfiol a gaiff ei chofnodi. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw “*The job can be stressful but it’s a nice place to work*” a “*we are a great team, morale in the home is good”.* Mae'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau, ac maent yn teimlo eu bod yn ddigon cymwys i wneud eu swyddi. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau personél y staff gofal ac roeddem yn gallu gweld eu bod yn cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol. Gwneir cais am wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys geirdaon a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyn i unigolion ddechrau gweithio. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn cadarnhau a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gofal bob amser yn cael ei roi'n unol â'r cynlluniau gofal personol, gan staff gofal sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny'n briodol. | Newydd |
| 35 | Rhaid dilyn prosesau recriwtio staff diogel er mwyn amddiffyn y bobl rhag niwed. | Cyflawnwyd |
| 36 | Rhaid i'r staff gofal gael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Rhaid i'r staff gofal gael hyfforddiant i ddeall anghenion penodol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/05/2024